# Bwletin Ymgynghori - wythnos yn gorffen 27 Tachwedd 2009

| Ffynhonnell | Teitl/dolen | Crynodeb | Dyddiad cyhoeddi | Dyddiad olaf derbyn ymateb |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Casglu data am blant a addysgir heblaw yn yr ysgol | Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn am Reoliadau drafft i fynnu bod awdurdodau lleol yn darparu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddata lefel unigolion am blant sy'n cael addysg a ariennir y tu allan i'r sector prif ffrwd. | 25/11/2009 | 18/12/2009 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol-Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd | Mae'r Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau eich barn ynghylch yr Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd (HRA) sy'n gysylltiedig â'n cynigion i greu system drafnidiaeth fwy integredig a chynaliadwy yng Nghymru. | 25/11/2009 | 08/01/2010 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad am Gyfarwyddyd Ymarfer Drafft ar Ddatblygu Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu | Eir ati yn yr ymgynghoriad hwn i geisio'ch barn am gyfarwyddyd ymarfer drafft a luniwyd gan y Grŵp Cynghori ar Weithredu ym maes Anabledd Dysgu ar y cyd â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar 'Developing a Commissioning Strategy for People with Learning Disabilities'. | 20/11/2009 | 12/03/2010 |

*******

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Ystadegau Iechyd Cymru 2009 - Arolwg Defnyddwyr | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r cyhoeddiad hwn ac yn gofyn am eich help drwy lenwi holiadur byr. Mae rhagor o fanylion a'r arolwg ar gael yma. | 30/09/09 | 30/11/09 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno ffioedd rheoleiddio ar gyfer y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru | Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu'r cynigion ar gyfer rheoliadau i gyflwyno ffioedd ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol preifat sydd am gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r rheini sydd wedi'u cofrestru. | 01/09/2009 | 30/11/2009 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad ar Ganllawiau a Fframwaith Comisiynu Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol | Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am eich barn ar Ganllawiau a Fframwaith Comisiynu Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol.<br><br>**Bydd CGGC yn paratoi papur briffio ac ymateb i'r ymgynghoriad hwn.** | 07/09/2009 | 30/11/2009 |
| **Bwrdd Yr Iaith Gymraeg** | Recriwtio a'r Iaith Gymraeg - llythyr ymgynghorol | Pa bryd ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer swydd? Dyna'r math o gyngor mae ymgynghoriad ddiweddaraf y Bwrdd, Recriwtio a'r Iaith Gymraeg, yn ei gynnig.<br><br>Mae'r ymgynghoriad yn targedu rheolwyr sy'n gyfrifol am recriwtio. Lluniwyd yr ymgynghoriad ar gyfer y sector cyhoeddus yn bennaf, ond mae llawer o'r cynnwys yn berthnasol i unrhyw gyflogwr sydd am ddatblygu sgiliau dwyieithog y gweithlu. | 06/11/09 | 03/12/09 |
| **Swyddfa'r Trydydd Sector** | Ymgynghoriad ynghylch Cyfnerthu Cyfraith Elusennau | Mae'r Mesur Cyfnerthu drafft yn dwyn ynghyd ddarpariaethau'r brif ddeddfwriaeth ar elusennau yng Nghymru ac yn Lloegr mewn un darn o ddeddfwriaeth ddrafft. Ni fyddai'n cyflwyno polisi newydd. Nod y Mesur drafft yw sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn symlach, yn meddu ar strwythur gwell ac yn fwy hygyrch i'r person lleyg.<br><br>Gellir cael mwy o wybodaeth yma | 11/09/09 | 04/12/09 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid gwefan ystadegau ar gyfer Cymru | Beth yw eich barn am wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru?<br><br>Bwriad yr arolwg hwn yw helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella adran ystadegau eu gwefan. Ddylai hyn ddim cymryd mwy na 10 munud i chi. | 09/11/09 | 07/12/09 |
| **Pwyllgor Materion Cymreig** | Ymchwiliad Newydd: Cymru a Whitehall | Yn dilyn ymchwiliadau diweddar y Pwyllgor Materion Cymreig, datguddiwyd problemau yn ymwneud â deall ac arsylwi'r setliad datganoli o fewn Whitehall, ac ymgynghoriad gwael â rhanddeiliaid o Gymru.<br><br>Felly, mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi penderfynu cynnal ymchwiliad newydd i'r cydweithredu a'r ymgynghori rhwng Cymru a Whitehall, ac fe fydd yn edrych ar y canlynol:<br><br>• Ymwybyddiaeth ynghylch y setliad datganoli o fewn y gwasanaeth sifil ac ynghylch y protocolau sydd ar waith mewn | 23/10/09 | 07/12/09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | perthynas â deddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio ar Gymru;<br>• Rôl Swyddfa Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder;<br>• I ba raddau y cyfathrebir rhwng Whitehall, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Aelodau Seneddol Cymru;<br>• Adolygiad o ganllawiau Whitehall ar ddatganoli, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol;<br>• Gweithredu ynghylch canfyddiadau'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder mewn adroddiad cynhwysfawr diweddar Devolution: A Decade On.<br>Disgwylir i sesiynau tystiolaeth lafar gyhoeddus gael eu cynnal ym mis Ionawr a Chwefror 2010.<br><br>Mae modd gweld canllawiau ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig i Bwyllgorau Dethol ar wefan y senedd yn: http://www.parliament.uk/commons/selcom/witguide.htm<br><br>Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r alwad hon am dystiolaeth, mae croeso i chi gysylltu â Rebecca Jones ar 020 7219 5693 neu anfon e-bost at: jonesbl@parliament.uk<br><br>**Fe fydd y WCVA yn ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth. Os hoffech fwydo unrhyw sylwadau i mewn i'r ymateb anfonwch hwy at Michelle Matheron (mmatheron@wcva.org.uk) erbyn Dydd Gwener, 27 Tachwedd os gwelwch yn dda.** | | |
| **Defra** | Ymgynghoriad ar Adolygiad Cave o gystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd dŵr | Mae'r papur ymgynghori hwn yn rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau am y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig i wella ac i ehangu cystadleuaeth ac arloesedd yn y diwydiannau dŵr a charthffosiaeth yn Lloegr a rhoi sylwadau ynghylch pa mor briodol ydy'r argymhellion yng nghyswllt Cymru. Mae'r cynigion yn seiliedig ar argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Cave ynghylch diwygio deddfwriaeth ar:<br><br>• Y drefn trwyddedu cyflenwad dŵr (hy y drefn cystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid mawr nad ydynt yn aelwydydd);<br>• Y drefn penodiadau (neu "fewnosodiadau") newydd; a<br>• Y drefn uno arbennig ar gyfer cwmnïau dŵr.<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn ystyried argymhellion Adolygiad Cave ar ddiwygio'r trefniadau caniatâd i arllwys a thynnu a ffyrdd o gynyddu capasiti arloesol yn y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr. | 17/09/09 | 10/12/09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Defra** | Ymgynghoriad ar weithredu Rheoliad FLEGT Ewrop 2005 yn y DU | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ar weithredu cynllun i ddilysu mewnforion pren trwyddedig o dan y trefniadau Gorfodi, Llywodraethu a Masnachu'r Gyfraith Coedwigoedd (FLEGT).<br><br>Bydd llwythi trwyddedig FLEGT yn cyrraedd y DU o wledydd sydd wedi llofnodi Cytundeb Partneriaeth Gwirfoddol (VPA) gyda'r Undeb Ewropeaidd i bennu cyfreithlondeb eu hallforion o bren a nwyddau pren. Mae Rheoliad FLEGT 2005 yn sefydlu systemau yn yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod allforion o wledydd VPA yn cael eu mewnforio i'r UE gyda thrwydded FLEGT ddilys. Y gwledydd cyntaf i lofnodi VPA oedd Ghana a Gweriniaeth Congo.<br><br>Mae angen eglurder yn awr ar sut y dylai gofynion y Rheoliad FLEGT gael eu gweithredu yn y DU, yn enwedig o safbwynt elfennau canlynol y cynllun:<br><br>• Dull adennill costau llawn wedi'i oedi<br>• Dulliau posibl i orfodi a phennu cosbau<br>• Cyfundrefn arolygu sy'n seiliedig ar wybodaeth gudd<br>• Dulliau posibl i ddelio â phren sy'n cael ei atafaelu<br><br>Mae'r ymgynghoriad hefyd yn datgan penderfyniad y DU ar yr Awdurdod Cymwys yn y DU ar gyfer y cynllun, ac mae'n cynnwys diagram proses ganlyniadau gychwynnol i gynorthwyo mewnforwyr pren a nwyddau pren i ddeall y cynllun trwyddedu FLEGT. | 17/09/09 | 10/12/09 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad ar y Cod Argymhellion er Lles Da Byw: Gwartheg a Defaid | Fel rhan o ymgynghoriad byr, mae Llywodraeth Cenedlaethol Cymru yn ysgrifennu atoch i wahodd eich sylwadau ar fersiwn ddrafft y Cod Argymhellion er Lles Da Byw: Gwartheg a Defaid. | 30/10/09 | 11/12/09 |
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Ymgynghori ar yr Adolygiad o ffioedd trwyddedu sy'n daladwy o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 Rhan 2 | Gwahoddir eich sylwadau ar y cynigion i gyflwyno newidiadau i ffioedd trwyddedu Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd o fis Chwefror 2010 ymlaen. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn y rhanddeiliaid ar y strwythur newydd arfaethedig ar gyfer ffioedd trwyddedu. | 19/10/2009 | 14/01/2010 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y Swyddfa Gartref** | Ymgynghoriad ar drefniadau trosiannol ar gyfer newidiadau i reoliadau clybiau dawnsio pen bwrdd a chanolfannau tebyg yng Nghymru a Lloegr | Mae'r Mesur Plismona a Throseddu sy'n destun craffu yn y Senedd, yn cyflwyno categori newydd o sefydliad rhyw a elwir yn 'lleoliad cyfarfyddiad rhyw' a fydd yn caniatáu awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i reoleiddio clybiau dawnsio pen bwrdd a chanolfannau tebyg o dan Atodlen 3 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.<br><br>Bydd y diwygiadau hyn yn rhoi mwy o lais i gymunedau lleol dros nifer a lleoliad clybiau o'r fath yn eu hardal.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ar gynigion ar gyfer y trefniadau trosiannol a fydd yn cael eu hamlinellu mewn is-ddeddfwriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr a chan Weinidogion Cymru yng Nghymru.<br><br>Mae Atodiad 1 yn dangos sut y byddai'r trefniadau trosiannol ar gyfer gweithredwyr presennol yn gweithio o dan y cynigion hyn. | 17/09/09 | 14/12/09 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Gwarchod Moroedd Cymru - Strategaeth ddrafft ar gyfer ardaloedd gwarchodedig morol yng Nghymru | Fe'ch gwahoddir i roi sylwadau ar y strategaeth ddrafft ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig Morol yng Nghymru, 'Gwarchod Moroedd Cymru'. Mae'r strategaeth yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio Ardaloedd Morol a Warchodir i helpu i warchod a gwella'r ecosystemau yn nyfroedd Cymru a chydymffurfio â'r rhwymedigaethau rhyngwladol a chyfreithiol.<br><br>**Ein gweledigaeth**<br><br>Ein gweledigaeth yw:<br><br>cael pawb i werthfawrogi'r môr o gwmpas Cymru, ac i'w ddeall a'i barchu am yr hyn y mae'n ei gynnwys ac yn ei ddarparu. Bydd ein moroedd yn lân, yn cefnogi economïau bywiog, ac ecosystemau iach sy'n weithredol ac yn amrywiol o safbwynt biolegol, yn gynhyrchiol ac yn wydn, ac yn cael eu defnyddio mewn modd sensitif a'u rheoli mewn ffordd gyfrifol.<br><br>Rydym o'r farn bod ardaloedd morol a warchodir, sy'n gydlynol ac sy'n cael eu rheoli'n dda yn allweddol i wireddu'n gweledigaeth. | 16/09/09 | 16/12/09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Gwarchod Moroedd Cymru - Strategaeth ddrafft ar gyfer ardaloedd gwarchodedig morol yng Nghymru | Fe'ch gwahoddir i gyflwyno sylwadau ar y strategaeth ddrafft ar Ardaloedd Gwarchodedig ar y Môr yng Nghymru, sef 'Gwarchod Moroedd Cymru'. Mae'r strategaeth yn egluro sut yr aiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ati i ddefnyddio Ardaloedd Gwarchodedig ar y Môr i helpu i warchod a gwella ecosystemau dyfroedd Cymru ac i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol a rhyngwladol. | 16/09/09 | 16/12/09 |
| **Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd** | Diwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Mabwysiadu, Cartrefi Plant a Maethu | Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o raglen waith sy'n dyddio'n ôl i'r papur gwyrdd 'Care Matters: Transforming the Lives of Children and Young People in Care' a oedd yn cynnig ffyrdd o wella canlyniadau i blant mewn gofal. Ar ôl ymgynghoriad, dilynwyd y papur gwyrdd gan bapur gwyn, sef 'Care Matters: Time for Change', a chynllun yn nodi sut y byddai hyn yn cael ei roi ar waith.<br><br>Cyflwynwyd y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rhoi Care Matters ar waith gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2008. Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn cael eu cyflwyno fesul cam yn ystod 2009 a 2010, wrth lunio, ymgynghori ynghylch a chyhoeddi gwahanol reoliadau a chanllawiau.<br><br>Diwygir ac ymgynghorir ynghylch rheoliadau a wnaed dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 hefyd yn ystod 2009 a 2010, gan gynnwys Rheoliadau Gwasanaethau Maethu 2002 a Rheoliadau Cartrefi Plant 2001.<br><br>**Nid yw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol mewn perthynas â chartrefi plant a maethu ond yn berthnasol i Loegr, ond mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yng nghyswllt Mabwysiadu yn berthnasol i Gymru.** | 24/09/09 | 17/12/09 |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru -** Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol | Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn Yng Nghymru | Mae'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru, ac mae'n galw ar rai sydd â diddordeb neu arbenigedd yn y maes i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. | 12/11/2009 | 18/12/2009 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Adran Cyfiawnder** | Cynlluniau rheoli dyledion | Ymgynghoriad ar amrywiaeth o opsiynau posibl ar gyfer gwella sut y mae llawer o ddyledwyr yn delio â dyledusrwydd. Mae'r opsiynau hyn yn gyfle i bobl ad-dalu eu dyledion mewn ffordd sy'n cael ei rheoli ac sydd o dan reolaeth. | 18/09/09 | 18/12/09 |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** - Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth | Datblygiad Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac Eithriadau i Faterion | Mae'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wrthi'n cynnal Ymchwiliad i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion a monitro canlyniad Adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol.<br><br>**Fe fydd y WCVA yn ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth. Os hoffech fwydo unrhyw sylwadau i mewn i'r ymateb anfonwch hwy at Michelle Matheron (mmatheron@wcva.org.uk) erbyn Dydd Gwener, 11 Rhagfyr os gwelwch yn dda.** | 10/11/2009 | 30/12/2009 |
| **Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd** | Ymgynghoriad ynghylch y drefn trwyddedu storio carbon deuocsid yn y môr arfaethedig | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar gynigion y Llywodraeth i gyflwyno trefn drwyddedu ar gyfer storio carbon deuocsid yn y môr, sy'n seiliedig ar bwerau a roddwyd gan Ddeddf Ynni 2008. Bwriad y drefn drwyddedu yw sicrhau bod fframwaith rheoleiddio addas i'r pwrpas yn bodoli er mwyn annog buddsoddi mewn datblygiadau storio o'r fath. Mae'n rhan o drosi Cyfarwyddeb 2009/31/EC yr UE ar storio carbon deuocsid yn ddaearegol yn rhan o gyfraith y DU. | 25/09/09 | 30/12/09 |
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Newidiadau arfaethedig i ledaenu cyhoeddiad "Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol" yn y dyfodol | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu newid y modd y mae'n dosbarthu'r cyhoeddiad hwn o 2010 ymlaen. Ni fydd dim o'r data yn cael ei dynnu oddi ar y we. | 29/10/09 | 31/12/09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Newidiadau arfaethedig i ledaenu cyhoeddiad "Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol" yn y dyfodol | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu newid y modd y mae'n dosbarthu'r cyhoeddiad hwn o 2010 ymlaen. Ni fydd dim o'r data yn cael ei dynnu oddi ar y we. | 29/10/09 | 31/12/09 |
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad ar Godau Presenoldeb yn yr Ysgol | Yn ymgynghori ar adolygu'r set bresennol o godau a chanllawiau ar bresenoldeb ysgol. | 12/10/09 | 31/12/09 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Strategaeth Tlodi Tanwydd | Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein hamcanion tlodi tanwydd. Bydd yn llywio'r broses o ddiweddaru'r Strategaeth mewn perthynas â'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â thlodi tanwydd. | 09/11/2009 | 04/01/2010 |
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Ar lwybr Arall - Strategaeth Ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr Dogfen Ymgynghori | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ar ei strategaeth ddrafft i gefnogi Sipsiwn-Teithwyr yng Nghymru ac i wella'u mynediad i wasanaethau. Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnwys gwybodaeth a nodau ar gyfer cyfeiriad polisi yn y dyfodol ar gyfer sawl maes polisi mewn perthynas â Sipsiwn-Teithwyr gan gynnwys addysg, iechyd, cyfranogiad ac eiriolaeth, cynllunio, llety a gwersyllfannau diawdurdod. Nod y strategaeth hon yw:<br><br>• gwireddu ein hymrwymiad i'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr<br>• sicrhau cyfle cyfartal i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru<br>• meddwl am ffyrdd newydd o alluogi cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i gael gafael ar adnoddau nad ydynt bob amser ar gael iddynt trwy sicrhau bod ein gwasanaethau yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion Sipsiwn a Theithwyr. | 15/09/09 | 05/01/2010 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad ar ganllawiau drafft trwyddedu amgylcheddol - Gweithrediadau gwastraff wedi'u heithrio | Ymgynghoriad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yw hwn. Mae'n gwahodd eich sylwadau ar strwythur a chynnwys canllawiau drafft trwyddedu amgylcheddol ar gyfer gweithrediadau gwastraff wedi'u heithrio. | 15/10/09 | 06/01/10 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad ar Ddangosyddion Perfformiad Statudol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru fis Ebrill 2010 | Mae'r ymgynghoriad hwn ar set newydd arfaethedig o ddangosyddion statudol ar gyfer awdurdodau lleol sydd i'w casglu o fis Ebrill 2010. | 13/11/2009 | 08/01/2010 |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru -** Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig | Ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig | Mae'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn cynnal ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yng Nghymru.<br><br>Bwriad ymchwiliad y Pwyllgor yw asesu effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer sicrhau safonau o ran hylendid cig a lles anifeiliaid mewn lladd-dai, ac ystyried pa gamau pellach, os o gwbl, y gellid eu cymryd i sicrhau y caiff y ddeddfwriaeth berthnasol ei gweithredu'n iawn.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn gofyn am dystiolaeth gan gynifer o bobl â phosibl sy'n gysylltiedig â'r diwydiant. Caiff y dystiolaeth a gesglir ar lafar ac yn ysgrifenedig ei defnyddio i graffu ar waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn a gwneud argymhellion i'r Llywodraeth y flwyddyn nesaf. | 13/11/2009 | 08/01/2010 |
| **Defra** | Ymgynghoriad ynghylch gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu i bobl leyg frechu moch daear yn erbyn twbercwlosis gwartheg | Ymgynghoriad ynghylch y newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu i bobl nad ydynt yn filfeddygon frechu moch daear yn erbyn twbercwlosis. | 07/10/09 | 08/01/10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad ynghylch cynlluniau ar gyfer dyfodol Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru | Diben yr ymgynghoriad hwn yw helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio rhaglen waith MALIC hyd at y diweddariad sylweddol nesaf yn 2013. Mae'r ddogfen ymgynghori'n manylu ar y prif feysydd gwaith y gellid eu gwneud cyn 2013 sydd ar gael yma.<br><br>Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn cynnal dau ddigwyddiad er mwyn helpu i egluro'r manylion a nodir yn yr ymgynghoriad.<br><br>Hoffent gael gweld beth yw anghenion a sylwadau cynifer o ddefnyddwyr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ag sy'n bosib, felly hoffent eich gwahodd i fynychu digwyddiad, neu i anfon ymateb ysgrifenedig os byddai'n well gennych.<br><br>Cynhelir y digwyddiadau trwy'r dydd ar 9 Tachwedd yng Nghyffordd Llandudno, ac ar 17 Tachwedd yn Abertawe.<br><br>Ceir rhagor o fanylion yma. | 30/09/09 | 08/01/10 |
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Buddsoddi mewn Sgiliau (Cronfa Blaenoriaethau Sector, Polisi Ffioedd a Chymorth Ariannol ar gyfer Dysgwyr) | Diben yr ymgynghoriad yw holi am farn pobl am y cynigion ar gyfer polisi ffioedd ôl-16, creu Cronfa Blaenoriaethau Sector a dyfodol Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru).<br><br>Yn ystod y cyfnod ymgynghori bydd cyfle i fynd i un o'r digwyddiadau hyn a fydd yn cael eu cynnal ledled Cymru ac yno cewch cyfle i gymryd rhan uniongyrchol yn y trafodaethau, dadlau ynghylch y materion sy'n codi a lleisio eich barn yn bersonol.<br><br>Fe welwch yr amserlen isod felly os byddwch am gofrestru i fynd i un o'r digwyddiadau hyn a fyddech cystal ag e-bostio skillsthatworkforwales@wales.gsi.gov.uk<br><br>• **27 Tachwedd, Canolfan Gymunedol Hope, Y Drenewydd**<br>• **1 Rhagfyr, Venue Cymru, Llandudno**<br>• **4 Rhagfyr, Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd** | 16/10/2009 | 11/01/2010 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Ymgynghori ynghylch y cynigion ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd yng Nghymru | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn chi ynghylch y rheoliadau drafft i ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag clefydau heintus neu halogiad gan gemegau neu ymbelydredd. | 04/11/09 | 13/01/09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru -** Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant | Gwneud y gorau o ddigwyddiadau chwaraeon mawr. | Archwilio gwaith Llywodraeth Cymru, ei chyrff cyflenwi a sefydliadau cenedlaethol eraill mewn perthynas â digwyddiadau chwaraeon mawr. | 11/2009 | 15/01/2010 |
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 Ymgynghori ar Ganllawiau Statudol Cysylltiedig | Ymgynghoriad yw hwn ar y canllawiau statudol y gall Gweinidogion Cymru eu cyhoeddi ar Ran 1 a 2 o'r Mesur.<br><br>**Fe fydd y WCVA yn ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth. Os hoffech fwydo eich sylwadau i mewn i'r ymateb hwn, anfonwch hwy at Fran Hughes (fhughes@wcva.org.uk) erbyn 31 Rhagfyr 2009 os gwelwch yn dda.** | 28/10/09 | 15/01/09 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Rheoleiddio gan Awdurdodau Lleol o Ffatrïoedd a Pheiriannau Diwydiannol: Ffioedd a Thaliadau ar Sail Risg 2010/11 | Diben yr ymgynghoriad hwn yw pennu lefel y ffïoedd y mae awdurdodau lleol yn eu codi am Reoleiddio Amgylchedd o Ffatrïoedd a Pheiriannau Diwydiannol yn 2010/11. | 02/11/2009 | 18/01/2010 |
| **Defra** | Ymgynghoriad ynghylch Cyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol: Rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar waith er mwyn ei gweithredu | Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn rhwng Defra, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n gwahodd barn am y rheoliadau drafft y mae'r Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn bwriadu eu defnyddio i drosi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol (Cyfarwyddeb 2008/56/EC). | 30/10/2009 | 22/01/2009 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009: Ymgynghoriad ynghylch y Canllawiau Arfaethedig ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymr | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r canllawiau statudol y gall Gweinidogion Cymru eu cyhoeddi ar gyfer Rhan 1 y Mesur o ran yr Awdurdodau Tân ac Achub. | 02/11/2009 | 25/01/2010 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth yng Nghymru | Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn barn pobl ynghylch y trefniadau arfaethedig o ran gweinyddu'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn barn ar gyfer thelerau cynllun diwygiedig sydd i'w roi ar waith o 1 Medi 2011 ymlaen. | 16/11/2009 | 29/01/2010 |
| **Llywodreath Cynulliad Cymru** | Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg: dweud eich dweud | Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu 'laith Pawb', ei Strategaeth laith Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2003.<br><br>Mae angen cynnal yr adolygiad oherwydd:<br><br>• bod newidiadau a datblygiadau wedi bod ers cyhoeddi laith Pawb<br>• y mae hefyd yn paratoi Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac yn ceisio cymhwysedd deddfwriaethol dros yr iaith Gymraeg.<br><br>Yn ogystal, mae'r Gweinidog dros Dreftadaeth wedi amlinellu nifer o egwyddorion craidd ar gyfer y strategaeth sef :<br><br>• yr angen i ganolbwyntio ymdrechion ac adnoddau ar y gweithgareddau hynny fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran y defnydd o'r Gymraeg<br>• yr angen i bennu a monitro targedau realistig ac i fod yn glir o ran pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod y targedau'n cael eu cyflawni<br>• yr angen i sicrhau bod unrhyw bolisïau sy'n cael eu datblygu yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth.<br><br>I weld papur gwybodaeth WCVA ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, cliciwch yma<br><br>**Bydd WCVA yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Os hoffech fwydo unrhyw sylwadau i mewn i'r ymateb anfonwch hwy at Mirriam Nasrat (mnasrat@wcva.org.uk) erbyn Dydd Gwener, 9 Ionawr os gwelwch yn dda.** | 15/10/09 | 29/01/09 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Safonau Ansawdd ar gyfer Awdioleg Paediatrig | Rydyn ni'n gofyn am eich barn ar y dogfennau drafft ar gyfer y safonau uchod ac ar y dechneg mesur ansawdd sy'n mynd gyda nhw. | 01/11/2010 | 31/01/2009 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | Ymgynghoriad ar Dalu am Ofal yng Nghymru: Papur Gwyrdd i ymgynghori ar yr opsiynau ar gyfer newid | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r Papur Gwyrdd Talu am Ofal yng Nghymru, sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer diwygio'r system. | 16/11/2009 | 28/02/2010 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Asiantaeth Safonau Bwyd** | **Amrywiol** | Nodiadau Cyfarwyddyd ar labelu sbrediau braster, gan gynnwys marjarin a menyn (Cymru) | 23/09/2009 | 03/12/2009 |
| | | Nodiadau Cyfarwyddyd ar ddeddfwriaeth sy'n amddiffyn dynodiadau llaeth (Cymru) | 23/09/2009 | 03/12/2009 |
| | | Offeryn Statudol Drafft: Rheoliadau ar gyfer Bwydydd sy'n addas ar gyfer Pobl na allant oddef Glwten (Cymru) 2009 | 04/11/2009 | 27/01/2010 |
| | | Cynigion i Leihau Baich Weinyddol Rheoliad 5 o Reoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004 (fel y diwygiwyd) | 25/11/2009 | 03/03/2010 |